




**Can you guess
their ages?**

**A guide to preventing
underage sales**



WHY ARE YOUNG PERSONS NOT ALLOWED TO BUY SOME PRODUCTS?

All age restricted goods pose a danger to the health or safety of those using them. Some, like tobacco, are dangerous irrespective of the age of the user, but all pose a greater risk in the hands of immature or inexperienced people. Some, for example alcohol, knives and fireworks, are increasingly a contributing factor in antisocial behaviour.

Society demands that restrictions be placed on the access that young persons can have to these goods. The response to these demands has been the introduction of laws which prohibit the sale of the goods to persons under certain minimum ages. Increasing concern about the anti-social behaviour of young people and the continued failure by some retailers to prevent sales has led to a tightening of the law and more emphasis being given to ensuring compliance through enforcement.

WHAT ARE THE PENALTIES FOR THOSE WHO BREAK THE LAW?

In addition to facing prosecution and being fined for breaching the law, licensees can face having their licence to sell alcohol revoked and, in addition to facing prosecution and being fined for breaching the law, licensees can face having their licence to sell alcohol revoked. Retailers can also be banned from from selling tobacco products for up to one year at a premises where tobacco products have been sold to persons under the age of 18 on three occasions within a two year period. These new restrictions may be applied to the premises or can also be applied to prevent a person from selling or having management functions in relation to the sale of tobacco products.



WHICH GOODS ARE SUBJECT TO THE RESTRICTIONS?

A full list of the goods and the minimum ages of persons to whom they may be sold can be found at the end of this leaflet.

WHO'S RESPONSIBLE FOR PREVENTING UNDERAGE SALES?

It is the responsibility of the seller to ensure that the purchaser is old enough to buy age restricted products. The purpose of this leaflet is to help you, and anyone who sells on your behalf, to meet these responsibilities.

HOW CAN I ASSESS A PURCHASER'S AGE?

It can be very difficult to assess a person's age from their appearance. Some children and young persons become physically mature at a young age and do not look like 'children'. However, the law says that you must not sell to them if they are not old enough. It is therefore very dangerous to rely on first impressions and snap decisions.

THIS IS WHY YOU SHOULD ALWAYS ASK FOR PROOF OF AGE IF THERE IS ANY DOUBT OVER THE AGE OF THE PURCHASER.

SOME CUSTOMERS ARE OBVIOUSLY OVER THE MINIMUM AGE. HOW DO I DECIDE WHETHER I SHOULD ASK FOR PROOF OF AGE?

Rather than assessing whether the purchaser looks older than the minimum age for buying the item, many businesses now operate a 'Think 21' policy where anyone appearing under the age of 21 is asked to prove



their age when buying age restricted goods. For added security you could extend this to a 'Think 25' policy. It is your decision as to what policy you adopt but you need to ensure that it is effective in identifying underage purchasers.

HOW CAN I BE SURE OF A PURCHASER'S AGE?

Acceptable forms of proof are:

- a passport,
- a photo-driving license, or
- a proof of age card bearing the PASS hologram, for example a Validate card or Citizencard.



The PASS logo means that the card belongs to a scheme that has been accredited to the national Proof of Age Standards Scheme. The PASS logo is illustrated in the specimen 'Validate' card below.

Whichever form of proof of age is offered to you, it is essential that you take the time to read it carefully, ensuring that the photograph is in fact of the holder, and that the person is at least the minimum age to purchase.

Note that a seller is unlikely to have any defence if they did not ask for proof of age.

If any doubt remains about someone's age, the sale MUST be refused.



WON'T CUSTOMERS GET ANNOYED IF I REFUSE TO SELL TO THEM?

Always remember that you are not obliged to sell anything to anyone if you do not wish to. If there is any doubt about the age of the purchaser, politely decline the sale. It may be helpful to have a notice displayed in the shop setting out the requirements of the law and your business policy as regards underage sales which customers can see before they attempt a purchase and to which you can refer any customers you refuse to serve.

PROXY SALES

WHAT AM I EXPECTED TO DO IF I SUSPECT THAT AN ADULT IS PURCHASING ALCOHOL ON BEHALF OF SOMEONE UNDERAGE?

You are breaking the law if you knowingly allow adults to deliver alcohol which was purchased on the premises to individuals under 18. Licensees should take reasonable precautions to ensure that this does not happen.

HOW CAN I SPOT A PERSON WHO BUYS ON BEHALF OF SOMEONE UNDERAGE?

Signs to look out for are;

- are there young people congregating in the vicinity of the shop?
- did you recently refuse to sell to an underage person and an adult is attempting to buy the same type of alcoholic product



immediately afterwards?

- a regular customer buying an alcoholic product which they would not normally buy, e.g. alcopops or strong cider;
- a customer who buys alcohol with different amounts of money (i.e. their own purchase and for someone under 18)
- a customer who pays for their purchase with a large amount of change

WHAT DO I NEED TO DO TO PREVENT PERSONS WHO SELL TO THE PUBLIC ON BEHALF OF MY BUSINESS FROM BREAKING THE LAW?

You must do everything possible to prevent an offence being committed by employees and other persons who serve in the shop, for example family members and volunteers.

This will mean setting up a suitable system and procedures aimed at ensuring that age restricted goods are not sold to underage persons at your business.

You must also be confident that the system which has been set up actually works.

You should ensure that all persons who sell to the public are aware that, in addition to the liability placed upon the business, they are also personally responsible in law for any sales that they make.



WHAT IS EXPECTED OF ME?

Your system to prevent underage sales should include:-

- staff training
- warning notices
- till prompts
- records of occasions when sales have been refused - the 'Refusals Records'
- monitoring and control by management / owner of the business

WHAT TRAINING SHOULD I GIVE TO STAFF?

The training you give to staff will depend on the size and nature of the business. As a basic guide, the following can reasonably be expected of even the smallest business.

You should ensure that staff (and anyone else serving in the store) understand:

- the different age restrictions on the products you sell and the reasons why they are subject to restrictions
- that they should look closely at prospective purchasers, even at busy times



- that it is very difficult to assess someone's age accurately. If they are not absolutely confident about a person's age they should ask for proof of age
- the format of acceptable proof of age and of any schemes operating locally
- that if any doubt remains, the sale should be refused
- what to do in the event of a refusal (see below)


You may also wish to provide staff with a copy of this leaflet but that does not absolve you of the need to give them training and ensure that they fully understand the points listed above.

SHOULD I KEEP RECORDS OF THE TRAINING GIVEN?

You should keep a record of the training given to staff, and ensure that any new employees also receive the necessary training. Staff should be asked to sign the training record to confirm that they have received the training and have understood the responsibility placed upon them. Staff should be updated on any new additions to the age restricted goods on sale, and training should include the latest information. In larger businesses, training should be formal and written, with regular monitoring of competency in relation to underage sales.

WARNING NOTICES

Make good use of warning notices on the premises. Warning notices are required by law in respect of sales of tobacco and fireworks to



minors; you may wish to use others for other age restricted products, along the lines suggested in this guidance pack. Such notices jog the memory of staff as well as acting as a deterrent for underage purchasers.

PROMPTS FOR USE AT THE POINT OF SALE

Use a prompt for staff at the point of sale. The minimum age notice included with this pack can be attached to the till, or close to it, to act as a final reminder before a sale is made.

Most stores have an EPOS till - it is often possible to arrange for till prompts, displaying a message querying the purchaser's age every time an age restricted product is scanned, to be set up. Large retailers would invariably have a sophisticated EPOS system in each store, and should therefore have electronic till prompts as a matter of course.

USE OF CCTV

If a CCTV system is in operation at a store, it should be used by Managers to monitor staff decisions, and used for training purposes.

SALE REFUSALS

You should keep a record of occasions when sales have been refused. For convenience you may wish to use the 'Refusals Record' sheet included with this pack. The manager or owner of the business should check regularly to see that the records are kept up to date.



The table below lists different goods and the age restrictions which apply to them -

Product	Minimum Age
Cigarettes/Tobacco	18
Nicotine Inhaling Products (e-cigarettes and liquid refills)	18
Alcohol	18
Fireworks	18
Party Poppers, Caps, Crackers	16
Knives	18
Butane Cigarette Lighter Refills	18
Aerosol Spray Paints	16
Film DVD's, Videos and Computer Games	12, 15, 18
National Lottery Tickets	16
Petrol	16

This information is intended for retailers selling age-restricted goods. It is intended for guidance as only the courts can interpret the law. If you require further advice regarding the law then please contact us at Gwynedd Trading Standards Unit on 01766 771000 or alternatively you can e-mail us on safmas@gwynedd.llyw.cymru



**A allwch ddyfalu eu
hoedran?**

**Canllawiau i rwystro
gwerthiant o dan oed**



PAHAM NAD YW POBL IFANC YN CAEL PRYNU RHAI NWYDDAU?

Mae pob math o nwyddau gyda chyfyngiadau oedran yn beryglus i iechyd a diogelwch y sawl sydd yn eu defnyddio. Mae rhai nwyddau, fel tybaco yn beryglus beth bynnag yw oed y defnyddiwr, ond mae'r nwyddau hyn i gyd yn gallu bod yn fwy peryglus yn nwylo pobl anaeddfed neu amhrofiadol. Mae rhai er enghraifft alcohol, cyllyll a tân gwyllt yn gynyddol yn ffactor sydd yn cyfrannu at ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae cymdeithas yn mynnu fod cyfyngiadau yn cael eu gosod ar fynediad pobl ifanc i'r nwyddau hyn. Mewn ymateb i'r galw yma mae deddfau wedi eu cyflwyno i wahardd gwerthiant nwyddau i unigolion sydd o dan oed arbennig. Mae pryder cynyddol am ymddygiad gwrthgymdeithasol ymysg pobl ifanc, a methiant parhaus rhai manwerthwyr i atal gwerthiant wedi arwain at dynhau'r gyfraith gyda mwy o bwyslais yn cael ei roi i sicrhau cydymffurfiad drwy orfodaeth.

BETH YW'R GOSB I'R RHAI SY'N TORRI'R GYFRAITH?

Yn ychwanegol i wynebu erlyniad a chael dirwy am dorri'r gyfraith, mae daliwr trwydded yn wynebu cael diddymu eu trwydded i werthu alcohol, yn ychwanegol i wynebu erlyniad a chael dirwy am dorri'r gyfraith mae daliwr trwydded yn wynebu cael diddymu eu trwydded i werthu alcohol. Fe all manwerthwyr hefyd gael eu gwahardd i fyny i 1 flwyddyn rhag gwerthu cynhyrchion tybaco mewn eiddo lle mae cynhyrchion tybaco wedi eu gwerthu i unigolion o dan 18 ar dri achlysur oddifewn i gyfnod o ddwy flynedd. Fe all y cyfyngiadau newydd hyn gael eu gosod ar yr eiddo, ond gellir hefyd eu defnyddio i wahardd person rhag gwerthu neu fod â chyfrifoldebau rheolaeth mewn perthynas â gwerthiant cynhyrchion tybaco.



PA NWYDDAU SYDD GYDA CHYFYNGIADAU OEDRAN?

Gweler rhestr lawn o nwyddau a'r cyfyngiadau oedran perthnasol ar eu cyfer ar ddiwedd y llyfryn hwn.

PWY SY'N GYFRIFOL AM ATAL GWERTHIANT O DAN OED?

Cyfrifoldeb y gwerthwr yw sicrhau fod y prynwr yn ddigon hen i brynu cynhyrchion sydd â gwaharddiad oedran. Pwrpas y llyfryn hwn yw helpu chi ac unrhyw un sydd yn gwerthu ar eich rhan, i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn.

SUT Y GALLAF ASESU OED PRYNWR?

Fe all fod yn anodd iawn asesu oedran person o'u hedrychiad. Mae rhai plant a phobl ifanc yn aeddfedu yn gorfforol yn ifanc a ddim yn edrych fel 'plant'. Fodd bynnag, mae'r gyfraith yn dweud na ddylech werthu iddynt os nad ydynt yn ddigon hen. Mae felly yn beryglus i ddibynnu ar yr argraff gyntaf a phenderfyniadau byrbwyll.

DYMA PAHAM Y DYLECH OFYN AM BRAWF OEDRAN BOB TRO OS OES UNRHYW AMHEUAETH YNGLŶN AG OEDRAN Y PRYNWR.

MAE RHAI CWSMERIAID YN AMLWG DROS YR OED IEUENGAF A GANIATEIR, SUT YDW I YN PENDERFYNU OS DYLWN OFYN AM BRAWF OEDRAN?



Yn hytrach na cheisio asesu os yw'r cwsmer yn edrych yn hŷn na'r oed sy'n dderbyniol ar gyfer prynu eitem, mae llawer o fusnesau yn awr yn gweithredu polisi 'Meddwl 21' lle mae'n arferiad i ofyn i unrhyw sydd yn edrych o dan 21 i brofi eu hoedran wrth brynu nwyddau sydd â chyfyngiadau oedran. Ar gyfer sicrwydd ychwanegol fe allwch ymestyn hyn i bolisi 'Meddwl 25'. Eich penderfyniad chwi yw dewis pa bolisi yr ydych yn ei fabwysiadu; ond mae'n rhaid i chwi sicrhau fod eich polisi yn effeithiol yn adnabod prynwyr o dan oed

SUT Y GALLAF FOD YN SICR O OEDRAN PRYNWR?

Y mathau derbyniol o brawf oedran fyddai -

- pasport
- trwydded yrru gyda llun
- cerdyn prawf oedran yn cynnwys yr hologram PASS, er enghraifft cerdyn Validate neu Citizencard.

Mae'r logo PASS yn golygu fod y cerdyn yn rhan o gynllun wedi ei achredu i'r Cynllun Cenedlaethol Prawf Oedran Safonol. Dangosir y logo PASS ar y cerdyn 'Validate' isod.



Pa bynnag prawf oedran a gynnigir i chwi, mae'n bwysig eich bod yn cymryd amser i'w ddarllen yn ofalus, gan sicrhau mai llun y daliwr sydd ar y cerdyn, a bod y person o leiaf yr oedran isaf a ganiateir i brynu'r cynnyrch perthnasol.



Cofiwch nad yw'r gwerthwr yn debygol o fod gydag unrhyw amddiffyniad os na ofynnir am brawf oedran.

Os oes unrhyw amheuaeth yn parhau ynglŷn ag oedran rhywun, mae'n RHAID gwrthod gwerthiant

ONI FYDD CWSMERIAID YN MYND YN FLIN OS BYDDAF YN GWRTHOD GWERTHU IDDYNT?

Cofiwch bob tro nad oes raid i chi werthu dim byd i neb os nad ydych yn dymuno gwneud hynny. Os oes unrhyw amheuaeth ynglŷn ag oedran y prynwr, gwrthodwch werthu yn gwrtais. Fe all fod yn gymorth i gael arwydd wedi ei arddangos yn y siop yn egluro gofynion y gyfraith a'ch polisi busnes mewn perthynas â gwerthiant o dan oed, fel y gall cwsmeriaid eu gweld cyn iddynt geisio prynu, ac y gallwch gyfeirio cwsmeriaid ato os ydych yn gwrthod gwerthu.

GWERTHIANT DIRPRWYOL (PROXY SALES)

BETH A DDISGWYLIR I MI EI WNEUD OS YDWYF YN AMAU FOD OEDOLYN YN PRYNU ALCOHOL AR RAN RHYWUN SYDD O DAN OED ?

'Rydych yn torri'r gyfraith os ydych yn caniatáu oedolion i drosglwyddo alcohol sydd wedi ei brynu ar yr eiddo i unigolion o dan 18 , os ydych yn ymwybodol mai dyna yw eu bwriad.

Fe ddylai deliwr trwydded gymryd camau rhesymol i sicrhau nad ydyw hyn yn digwydd.



SUT Y GALLAF ADNABOD PERSON SYDD YN PRYNU AR RAN UNIGOLION O DAN OED?

Arwyddion i edrych allan am yw -

- oes yna bobl ifanc yn ymgasglu o gwmpas y siop?
- a wnaethoch wrthod gwerthu i unigolyn o dan oed, ac mae oedolyn yn ceisio prynu yr run fath o gynnyrch alcohol yn syth ar ôl hynny;
- a oes cwsmer rheolaidd yn prynu cynnyrch alcohol nad ydynt yn eu prynu yn arferol, e.e. Alcopops neu boteli o seidr cryf;
- cwsmer sydd yn prynu alcohol gyda gwahanol symiau o arian parod (h.y. yn prynu alcohol ar gyfer eu hunain yn ogystal â rhywun o dan 18)
- cwsmer sydd yn defnyddio llawer o newid mân i dalu.

BETH SYDD ANGEN I MI EI WNEUD I ATAL UNIGOLION SYDD YN GWERTHU I'R CYHOEDD AR RAN FY MUSNES RHAG TORRI'R GYFRAITH?

Mae'n rhaid i chwi wneud popeth sydd yn bosib i atal staff ac unigolion eraill sydd yn gweini yn y siop, er enghraifft aelodau o'ch teulu neu wirfoddolwyr, rhag caniatáu i drosedd ddigwydd.

Fe olyga hyn sefydlu system addas a gweithdrefnau er mwyn sicrhau nad yw nwyddau sydd â gwaharddiad oedran arnynt yn cael eu gwerthu i unigolion o dan oed ar eich eiddo busnes. Mae'n rhaid i chi yn ogystal fod yn hyderus fod y system sydd wedi ei sefydlu yn gweithio yn iawn.



Fe ddylech sicrhau fod bob person sydd yn gwerthu i'r cyhoedd yn ymwybodol, yn ychwanegol i'r cyfrifoldeb a osodir ar y busnes, eu bod hwythau yn bersonol yn gyfrifol yn gyfreithiol am unrhyw werthiant maent yn ei wneud.

BETH A DDISGWYLIR OHONOF ?

Fe ddylai eich system i atal gwerthiant o dan oed gynnwys:-

- hyfforddiant staff
- arwyddion rhybudd
- anogwr till (till prompts)
- cofnodion o achosion pan mae gwerthiant yn cael ei wrthod – Y 'Cofnod Gwrthod'
- monitro a rheolaeth gan y rheolwr/ perchennog y busnes

PA FATH O HYFFORDDIANT Y DYLWN EI ROI I STAFF?

Mae'r hyfforddiant yr ydych yn ei roi yn ddibynnol ar faint a natur eich busnes. Fel canllaw sylfaenol, fe fyddai'n rhesymol i ddisgwyl y canlynol hyd yn oed gan y busnes lleiaf.

Fe ddylech sicrhau fod y staff (ac unrhyw un arall sydd yn gweini yn y siop) yn deall:

- y gwahanol gyfyngiadau oedran sydd ar y nwyddau yr ydych



yn ei werthu, a'r rhesymau paham eu bod yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau

- y dylent edrych yn agos ar ddarpar brynwyr, hyd yn oed yn ystod adegau prysur
- fod yn anodd iawn asesu oedran rhywun yn gywir. Os nad ydynt yn hollol hyderus ynglŷn ag oedran person fe ddylid gofyn am brawf oedran
- ffurf cynlluniau prawf oedran derbyniol sydd yn weithredol yn lleol
- os oes unrhyw amheuaeth yn parhau, y dylid gwrthod gwerthiant
- beth i'w wneud mewn achos o wrthod gwerthiant (gweler isod)

Efallai y byddwch hefyd yn dymuno darparu staff gyda chopi o'r llyfryn hwn, ond nid yw hynny yn eich rhyddhau o'r angen i roi hyfforddiant iddynt ac i sicrhau eu bod yn llwyr ddeall y pwyntiau a restrir uchod

A DDYLWN GADW COFNOD O'R HYFFORDDIANT A RODDIR?

Fe ddylid cadw cofnod o'r hyfforddiant a roddir i staff, a sicrhau fod unrhyw aelodau newydd o staff hefyd yn derbyn hyfforddiant. Fe ddylid gofyn i staff arwyddo'r cofnod hyfforddi er mwyn cadarnhau eu bod wedi derbyn yr hyfforddiant priodol, ac wedi deall eu cyfrifoldebau. Mae staff angen eu diweddarau ynglŷn ag unrhyw ychwanegiadau newydd i'r nwyddau sydd ar werth gyda gwaharddiadau oedran, ac fe ddylai hyfforddiant gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf. Mewn busnesau mwy, fe ddylai'r hyfforddiant fod yn ffurfiol ac yn ysgrifenedig, gyda monitro rheolaidd o gymhwysedd mewn perthynas â gwerthiant o dan oed.



ARWYDDION RHYBUDD

Gwnewch ddefnydd effeithiol o arwyddion rhybudd ar yr eiddo. Mae'n rhaid cael arwyddion rhybudd yn ôl y gyfraith mewn perthynas â gwerthiant tybaco a tân gwyllt i unigolion sydd o dan oed, fe ellir defnyddio arwyddion eraill ar gyfer cynhyrchion eraill sydd gyda chyfyngiadau oedran hefyd, ar yr un llinellau a awgrymir yn y pecyn gwybodaeth hwn. Mae arwyddion o'r fath yn atgoffa staff yn ogystal â bod yn arf ataliol ar gyfer prynwyr o dan oed.

ANOGWR AR GYFER DEFNYDD WRTH Y PWYNT GWERTHU

Defnyddiwch anogwr (prompt) wrth y pwynt gwerthu. Fe ellir rhoi yr arwydd rhybudd cyfyngiad oedran a gynhwysir gyda'r pecyn hwn ar y till, neu wrth ymyl, i weithredu fel nodyn atgoffa cyn i nwyddau gael eu gwerthu.

Mae gan y rhan fwyaf o siopau till EPOS - mae'n aml yn bosib trefnu anogwr ar y till, gan drefnu i arddangos neges yn ymholi oedran y prynwr bob tro mae nwyddau sydd gyda chyfyngiad oedran yn cael ei sganio. Fe fyddai gan siopau mawr yn ddieithriad system EPOS soffistigedig ymhob siop, ac fe ddylid bod ganddynt felly anogwr electronic ar y till.

DEFNYDD O CCTV

Os oes system CCTV yn weithredol mewn siop, gall y Rheolwyr ei ddefnyddio i fonitro penderfyniadau staff, ai ddefnyddio gogyfer pwrpas hyfforddi.



GWRTHOD GWERTHIAN

Fe ddylech gadw cofnod o'r achlysuron y gwrthodir gwerthiant. Er hwylustod, efallai y dymunwch ddefnyddio'r 'Cofnod Gwrthod'/'Refusal Record' a gynhwysir yn y pecyn gwybodaeth. Fe ddylai'r rheolwr neu berchennog y busnes wirio'r cofnod yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn cael ei gadw yn gyfredol.

Mae'r tabl isod yn rhestru'r nwyddau gwahanol gyda'r cyfyngiadau oedran sydd yn berthnasol iddynt -

Cynnyrch	Oed
Sigaréts / Tybaco	18
Cynnyrch mewnanadlu nicotin (e-sigarets a'r hylif adlenwi)	18
Alcohol	18
Tân Gwyllt	18
Popwyr Parti, Capiau	16
Cyllyll	18
Ail-Lenwadau Biwtan Tanwyr Sigaréts	18
Chwistrellau paent erosol	16
Ffilmiau DVDs a Gemau Cyfrifiadur	12,15,18
Tocynnau'r Loteri Genedlaethol	16
Petrol	16

Mae'r wybodaeth yma wedi ei fwriadu ar gyfer manwerthwyr sydd yn gwerthu nwyddau gyda chyfyngiadau oedran. Fe'i fwriedir fel canllaw yn unig, gan mai dim ond y llysoedd a all ddehongli'r gyfraith. Os ydych angen gwybodaeth bellach ynglŷn â'r gyfraith yna cysylltwch â ni yn Uned Safonau Masnach Gwynedd ar 01766 771000, neu gallwch ein e-bostio ar safmas@gwynedd.llyw.cymru